Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adroddiad ar yr adolygiad o ffyrdd o leddfu gofid dioddefwyr mewn treialon am drais rhywiol

Mawrth 2014

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Adroddiad ar yr adolygiad o ffyrdd o leddfu gofid dioddefwyr mewn treialon am drais rhywiol

**Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn www.gov.uk/moj**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Argymhellion yr adolygiad | 4 |
| Cyflwyniad a chrynodeb | 6 |
| Atodiad A – Cyfranwyr i'r adolygiad | 24 |

## Rhagair



Ar 28 Mehefin 2013 cyhoeddodd y Llywodraeth *Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol*. Mae'r cynllun yn cynnig set o gyd-ganlyniadau sy'n cynnwys ymrwymiadau i gynyddu hyder y cyhoedd, yn enwedig dioddefwyr a thystion, a sicrhau bod y system yn deg a chyfiawn. Yr uchelgais yw gwneud y system yn fwy ymatebol fel bod dioddefwyr yn cael y cymorth priodol ac yn cael gwell profiad wrth roi tystiolaeth.

Fel y Gweinidog dros Blismona, Cyfiawnder Troseddol a Dioddefwyr, rwyf yn gweithio ar draws dwy o adrannau'r Llywodraeth a gallaf edrych ar draws y system cyfiawnder troseddol. Gallaf weld nad yw'r ymateb i rai troseddau'n ddigon da ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau gwelliannau. Nodwyd bod trais rhywiol yn faes allweddol lle'r oedd angen cymryd camau ar frys a sefydlodd y Llywodraeth y grŵp cenedlaethol ar Drais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl sy'n Agored i Niwed. Mae ymrwymiadau yng ngwaith y grŵp hwn ac yn y Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol i hyrwyddo rhaglen uchelgeisiol o ddiwygiadau i wella'r ymateb i drais rhywiol a'r profiad a gaiff dioddefwyr.

Ar 30 Mehefin 2013 cyhoeddais adolygiad o ffyrdd o leddfu'r gofid y mae rhai dioddefwyr yn ei brofi yn ystod croesholi mewn achosion am drais rhywiol, yn enwedig rhai sy'n cynnwys nifer o ddiffynyddion a bargyfreithwyr. Hefyd, ymrwymodd y Llywodraeth i ystyried penodi rheithwyr ychwanegol mewn achosion am gamfanteisio rhywiol ar blant a thrais yn erbyn menywod a merched. Byddai hyn yn fodd i osgoi sefyllfa lle'r oedd yn rhaid i ddioddefwyr roi tystiolaeth mwy nag unwaith drwy leihau'r perygl o amharu ar dreialon. Roedd y ddau gam gweithredu hyn yn y Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol.

Mae'r adroddiad hwn yn trafod prif ganfyddiadau'r adolygiad a'r argymhellion am gamau gweithredu yr wyf wedi'u cymeradwyo. Rwyf yn ddiolchgar i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol, sydd eisoes wedi rhoi gwybod y byddant yn diwygio'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol er mwyn penodi rheithwyr ychwanegol mewn ffordd gyson.

Bydd yr holl ganfyddiadau hyn yn fentrau allweddol yng ngham nesaf ein diwygiadau i'r system cyfiawnder troseddol ac yn y gwaith sy'n mynd rhagddo i ymateb i drais rhywiol, a byddant yn cael eu dal dan sylw gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a'r grŵp cenedlaethol ar Drais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl sy'n Agored i Niwed.



**Damian Green AS**

**Y Gweinidog Gwladol dros Blismona, Cyfiawnder Troseddol a Dioddefwyr**

# Argymhellion yr adolygiad

## Yr wyth argymhelliad yn yr adolygiad mewn pedwar maes lle y nodwyd bod lle i ddiwygio yw:

(i) **Cryfhau a gwella'r ffordd o reoli achosion a chynnal treialon**

1.1 Bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal â'r farnwriaeth ac ymarferwyr erlyn ac amddiffyn ynghylch a ellir ehangu cwmpas a defnydd o Wrandawiadau Rheolau Sylfaenol i gynnwys mwy/y cyfan o'r achosion trais rhywiol. Dylid ystyried sut i hyrwyddo hyn fel dull ymarfer gorau drwy roi canllawiau, a chyfeirio at Wrandawiadau Rheolau Sylfaenol mewn deunyddiau perthnasol ar reoli achosion.

2.1 Ystyried cyflwyno mecanwaith i sicrhau bod yr holl achosion trais rhywiol yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer rheolaeth weithredol a pharhaus, er mwyn helpu i sicrhau mai anghenion y dioddefwr fydd y brif ystyriaeth drwy gydol y broses.

3.1 Bod rheolau ymddygiad proffesiynol yn cael eu hadolygu i adnabod anghysonderau a chynnig ffyrdd i'w hunioni at ddibenion treialon mewn achosion am drais rhywiol.

(ii) **Arbenigo gan lysoedd a/neu'r rheini sy'n gysylltiedig ag achosion am drais rhywiol**

1.1 Bod cyrff sy'n gyfrifol am ymddygiad proffesiynol ac ymarferwyr yn cael eu hannog a'u helpu i ddatblygu system agored a thryloyw ar gyfer achredu adfocadau'r amddiffyniad.

(iii) **Mesurau arbennig a threfniadau eraill ar gyfer dioddefwyr yn y llys**

1.1 Edrych ar y manteision posibl o ehangu rôl cyfryngwyr, gan gynnwys ystyried a yw hynny'n ymarferol o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol neu drwy ei ddiwygio, ac asesu goblygiadau o ran cost. Drwy'r gwaith hwn, dylid ystyried hefyd briod rolau cyfryngwyr, Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) a chynorthwywyr eraill fel y bydd rôl a phwrpas pob un ohonynt yn eglur.

2.1 Wrth ddisgwyl canlyniad y rhaglen beilot ar recordio croesholi cyn treial, argymhellir bod mwy o waith yn cael ei wneud i hybu ymwybyddiaeth a mwy o ddefnydd o gysylltiadau byw a mesurau arbennig eraill i alluogi dioddefwyr a thystion mewn achosion am drais rhywiol i roi tystiolaeth a chael eu croesholi y tu allan i'r ystafell llys.

3.1 Ystyried y manteision posibl o gynnal adolygiad pellach ar ôl cael gwybod y canlyniadau o'r rhaglen beilot ar recordio croesholi cyn treial a rhaglenni presennol ac arfaethedig eraill sy'n effeithio ar achosion am drais rhywiol a/neu ddioddefwyr sy'n blant.

(iv) **Codeiddio'r trefniadau i benodi rheithwyr 'wrth gefn' ar gyfer y cam agoriadol mewn treialon am drais rhywiol mewn rhai amgylchiadau**

1.1 Argymhellir y byddai mantais mewn codeiddio'r dull o benodi rheithwyr ychwanegol ar gyfer y cam agoriadol fel y bydd canllawiau i farnwyr ynghylch y camau i'w cymryd, fel y gellir hysbysu rheithwyr ac fel y gall rheolwyr rheithgorau reoli'r garfan rheithwyr mewn ffordd gyson. Yn ogystal â hyn, dylid darparu wrth newid y rheolau fod rheithwyr, mewn achosion priodol, i gael eu panelu ar ddiwedd y dydd cyn dechrau'r treial.

# Cyflwyniad a chrynodeb

1. Ar 28 Mehefin 2013 cyhoeddodd y Llywodraeth strategaeth a chynllun gweithredu – *Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol* – i ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r cynllun yn cynnig set o gyd-ganlyniadau ar gyfer pob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys ymrwymiadau i gynyddu hyder y cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr a thystion, ac i sicrhau bod y system yn deg a chyfiawn. Yr uchelgais yw gwneud y system yn fwy ymatebol fel bod dioddefwyr yn cael y cymorth priodol, gan gynnwys cymorth i geisio gwella'r profiad o roi tystiolaeth.

2. Mae'r cynllun yn cydnabod nad yw ymateb y system cyfiawnder troseddol i rai troseddau'n ddigon da ac yn pennu camau gweithredu penodol ar gyfer tri math o drosedd er mwyn sicrhau ymateb mwy effeithiol o'r dechrau i'r diwedd. Un o'r rheini yw trais yn erbyn menywod a merched a cham-drin plant yn rhywiol, a all fod o lawer math gwahanol. Mae'r papur hwn yn adrodd ar ddau gam gweithredu allweddol yn y cynllun sy'n canolbwyntio ar achosion o'r math hwn ac ar wella profiad dioddefwyr sydd â rhan ym mhroses y treial.

3. Cyhoeddodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona, Cyfiawnder Troseddol a Dioddefwyr, Damian Green AS ar 30 Mehefin 2013 y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o ffyrdd o leddfu'r gofid y mae rhai dioddefwyr yn ei brofi yn ystod croesholi mewn treialon ar achosion am drais rhywiol, yn enwedig rhai sy'n cynnwys nifer o ddiffynyddion a bargyfreithwyr.[1]

4. Yn ogystal â hyn, ymrwymodd y Llywodraeth i ystyried penodi rheithwyr ychwanegol mewn achosion am gamfanteisio rhywiol ar blant a thrais yn erbyn menywod a merched er mwyn osgoi sefyllfa lle y mae'n rhaid i ddioddefwyr roi tystiolaeth mwy nag unwaith drwy leihau'r perygl o orfod atal treialon a'u hailddechrau.[2]

5. I ddibenion yr adolygiad:

   - Roedd swyddogion wedi cwrdd â'r rhai canlynol a chael barn a chyfraniadau ganddynt: y Swyddfa Farnwrol, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron, academwyr blaenllaw ym maes y gyfraith, y gwasanaeth llysoedd, a'r trydydd sector – gweler y manylion yn Atodiad A. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth er mwyn elwa ar ddysg ac ymchwil ynghylch ein hawdurdodaeth cyfiawnder troseddol ac awdurdodaethau eraill lle y mae croesholi'n digwydd.
   - Er mwyn cadarnhau bod angen cynnal prosiect ynghylch rheithwyr ychwanegol, defnyddiwyd holiadur i gasglu gwybodaeth oddi wrth bartïon perthnasol ynghylch pa mor aml y mae treialon Llys y Goron yn cael eu hatal am fod rheithwyr yn tynnu'n ôl yn annisgwyl yn ystod yr achos. Cylchredwyd yr holiadur i reolwyr rheithgorau, Barnwyr Llywyddol a Phreswyl, is-bwyllgor cyfiawnder troseddol

[1] Cam Gweithredu 43 yn Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol.

[2] Ibid, Cam Gweithredu 44.

Cyngor y Barnwyr Cylchdaith, Prif Erlynwyr y Goron a'r Gweithgor Amddiffyn Rhithwir.

6. Sefydlwyd y grŵp cenedlaethol *Trais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl sy'n Agored i Niwed* hefyd yn 2013 (gan y Swyddfa Gartref ar gais y Prif Weinidog) i bennu a hyrwyddo diwygiadau mewn perthynas ag adnabod trais rhywiol ac ymateb iddo (o fewn y System Cyfiawnder Troseddol a'r tu allan iddi), gan gysylltu'r rhaglen waith a'r mentrau sy'n mynd ymlaen eisoes ar draws Llywodraeth i fynd i'r afael â throseddu o'r math hwn a dod â chyflawnwyr gerbron llys. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol i waith y grŵp cenedlaethol – yn enwedig y ffrwd waith System Cyfiawnder Troseddol: sut i drin dioddefwyr ac ymateb iddynt – sy'n ceisio sicrhau'r effaith fwyaf posibl o waith yn y System Cyfiawnder Troseddol ynghylch sut i drin dioddefwyr ac ymateb iddynt.

7. Yn ogystal â hyn, yn ei adroddiad '*Child sexual exploitation and the response to localised grooming*' ym Mehefin 2013 galwodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref am ddiwygiadau i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu rhoi tystiolaeth yn glir ac effeithiol yn y llys. Roedd y Pwyllgor yn argymell bod y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyflwyno llysoedd arbenigol (tebyg i'r llysoedd trais domestig sydd ar waith yn awr) i ddelio ag achosion am gam-drin plant yn rhywiol a throseddau rhywiol yn gyffredinol. Roedd hyn i fod ar ffurf timau profiadol sy'n cynnwys y llys cyfan mewn llysoedd ac ystafelloedd llys sydd â'r dechnoleg angenrheidiol. Mae rhai agweddau ar argymhellion y Pwyllgor wedi'u hystyried yn ystod yr adolygiad o groesholi, sydd wedi edrych yn gyffredinol ar broses y treial mewn achosion am drais rhywiol.

## Maint a chwmpas y problemau

8. Mae'r adolygiad o groesholi wedi'i gynnal i ymateb yn uniongyrchol i nifer o achosion a oedd wedi denu sylw a beirniadaeth, lle'r oedd oedolion a phlant a ddioddefodd drais rhywiol wedi cael eu gadael mewn trawma ar ôl treialon. Roedd sylwebwyr wedi cyfeirio'n benodol at y broses croesholi gan feirniadu natur a dull yr holi ar ddioddefwyr gan gynnwys, er enghraifft, y defnydd o gwestiynau a oedd wedi'u geirio'n wael ac ailadrodd cwestiynau a phwyntiau, a hyd y broses – elfennau a oedd yn fwyaf amlwg mewn achosion lle'r oedd nifer o ddiffynyddion a chwnseliaid.

9. Mae croesholi'n rhan annatod o'n system gyfiawnder wrthwynebus. Nid yw wedi'i seilio ar ddeddfwriaeth ac mae'n broses sydd wedi datblygu dros amser ac sy'n elfen allweddol mewn achosion sy'n mynd gerbron y rhan fwyaf o lysoedd a thribiwnlysoedd. Pwrpas croesholi yw gweld pa mor ddibynadwy yw'r dystiolaeth sy'n cael ei rhoi gan y partïon a'r tystion drwy ofyn cwestiynau gwrthwynebus. Bydd y ddau barti'n cael cyfle i gyflwyno eu safbwynt yn glir i'r llall fel bod unrhyw ddadl ynghylch ffeithiau wedi'i deall yn glir a bod cyfle i ateb. Mae croesholi'n rhoi prawf ar hygrededd y dystiolaeth sy'n cael ei rhoi ac ar y person sy'n ei rhoi.

10. Mewn erthygl ddiweddar[3] edrychwyd ar gychwyniadau croesholi. Nodir mai'r gred gyffredin yw bod fformat y treial troseddol yn Lloegr sy'n gyfarwydd i ni heddiw wedi dod i fodolaeth lai na 300 mlynedd yn ôl. Yr un sy'n cael y clod am gychwyn croesholi yw'r bargyfreithiwr William Garrow a oedd yn enwog ar ddiwedd y 1700au am ei "aggressive style when addressing judges and cross-examining witnesses as he

[3] Cooper a Marchant '*Nobody really did that, did they': Is cross-examination about investigating the truth*? (2014) i'w gyhoeddi.

fought hard for prisoner's rights…". Roedd yn adnabyddus am groesholi am gyfnodau hir, fel ffordd o herio tystion, ac roedd bargyfreithwyr eraill, a oedd wedi'u hysbrydoli gan ei eofndra a'i lwyddiant, wedi mabwysiadu ei ddull o weithredu. Mae'r awduron yn nodi bod y system gyfiawnder wrthwynebus yn cael ei chysylltu â geiriau fel gwrthdaro, brwydro, ymladd ac ymryson.

11. Cafwyd enghreifftiau trist o'r angen i ddod o hyd i ffyrdd o leddfu'r gofid y mae rhai dioddefwyr yn ei brofi o gael eu croesholi. Roedd Ms Frances Andrade (oedolyn a oedd wedi cwyno am gam-drin 'hanesyddol') wedi'i lladd ei hun ar ôl rhoi tystiolaeth yn nhreial yr un yr honnwyd ei fod wedi'i cham-drin; dri diwrnod cyn ei marwolaeth roedd wedi anfon neges testun at ei ffrind gan ddweud ei bod yn teimlo, ar ôl bod yn y blwch tystio, ei bod wedi cael ei threisio am y eildro. Roedd 'Achos Rhydychen'[4] yn dreial pedwar mis o hyd lle'r oedd chwe achwynydd (a oedd rhwng 16 a 21 mlwydd oed ar adeg rhoi eu tystiolaeth) a naw diffynnydd a oedd wedi'u cynrychioli gan ddau gwnsler yr un. Mewn gwybodaeth a ddarparwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron, nodwyd bod un o'r tystion wedi rhoi tystiolaeth am ddau ddiwrnod a hanner, a bod un diwrnod a hanner o'r cyfnod hwnnw'n groesholi ar ran tri diffynnydd.

12. I ddibenion yr adolygiad, rydym wedi canolbwyntio ar dreialon mewn achosion am drais rhywiol sy'n digwydd yn Llys y Goron, gan mai'r rhain yw'r achosion mwyaf difrifol a chymhleth lle y gellir cael treialon hir sy'n parhau am nifer o wythnosau neu fisoedd. Mae'r tabl isod, sydd wedi'i seilio ar ffigurau a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn dangos bod tua 4000 o ddiffynyddion bob blwyddyn yn pledio'n ddieuog mewn treialon yn Llys y Goron lle y mae trosedd rhywiol yn gyhuddiad mwyaf difrifol. Mae hyn oddeutu 14% o'r holl ddiffynyddion sy'n pledio'n ddieuog.[5]

*Nifer y diffynyddion (000oedd) a roddwyd ar brawf* yn Llys y Goron a blediodd yn ddieuog yn ôl y prif drosedd*

| **Blwyddyn** | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** | **2011** | **2012** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Troseddau rhywiol | 3.7 | 3.5 | 3.7 | 4.2 | 4.2 | 4.0 |
| Yr holl droseddau | 26.2 | 25.8 | 27.7 | 30.7 | 29.5 | 26.8 |
| Cyfran | 14% | 14% | 13% | 14% | 14% | 15% |

Ffynhonnell: wedi'i seilio ar ffigurau yn nhabl A3.15, *Criminal Justice Statistics Quarterly*, y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Rhagfyr 2012.

* Nid yw'n cynnwys y rhai sydd heb eu rhoi ar brawf (h.y. wedi'u traddodi i'w dedfrydu, heb ymddangos, y ditiad i aros ar y ffeil, yn an-ffit i bledio, y diffynnydd wedi marw, etc).

O'r data sydd ar gael, nid ydym yn gallu cael gwybod grŵp oedran y dioddefwyr ar adeg y troseddau honedig nac ar yr adeg y mae'r achos yn mynd gerbron llys. Nid yw'r data'n rhoi gwybodaeth ychwaith am nifer y dioddefwyr a'r diffynyddion ym mhob achos, er mwyn gallu pennu nifer y cwnseliaid am bob achos.

---

4 Ymgyrch Bullfinch (Heddlu Dyffryn Tafwys) – Roedd gang cyfundrefnol wedi camfanteisio'n rhywiol ar ferched drwy feithrin perthynas amhriodol, puteindra a threisio dros gyfnod o chwe blynedd. Canlyniad y treial oedd bod saith dyn wedi'u cael yn euog o 59 o droseddau gan gynnwys treisio, hwyluso puteindra plant a masnachu plant.

5 Gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynwyd yn gywir a chyflawn. Er hynny, mae'n bwysig nodi bod y data hyn wedi'u codi o systemau data gweinyddol mawr sy'n cael eu rhedeg gan y llysoedd a heddluoedd. Oherwydd hyn, rhaid gofalu bod y prosesau casglu data a'r cyfyngiadau anorfod sydd arnynt yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r data hynny.

Mae ffigurau a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dangos bod oedi mewn tua 1,000 o wrandawiadau treial y flwyddyn yn Llys Goron yn y blynyddoedd diwethaf am fod tystion yr erlyniad yn absennol. Rhaid nodi bod y ffigur blynyddol hwn yn cynnwys yr holl droseddau a aeth gerbron Llys y Goron ac nad yw'r rhesymau dros absenoldeb tystion wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod cyfran o'r tystion hyn mewn treialon wedi bod yn ddioddefwyr mewn achos am drosedd rhywiol a'u bod wedi methu â bod yn bresennol yng ngwrandawiad y treial am fod arnynt ofn cael eu croesholi neu ofn y broses cyfiawnder troseddol yn gyffredinol.[6]

13. Mae'r adolygiad o groesholi'n cwmpasu pob math o achosion sy'n mynd gerbron Llys y Goron o dan bennawd cyffredinol 'trais rhywiol'. Mae'r rhain yn cynnwys cyhuddiadau am droseddau sydd wedi'u dwyn o dan ddeddfwriaeth troseddau rhywiol yn ogystal â deddfwriaeth arall sy'n delio â cham-drin a chamfanteisio ar blant a phobl sy'n agored i niwed. Mae troseddau diweddar a hanesyddol wedi'u cynnwys er mwyn ystyried troseddwyr o bob oed a math, ac mae'r adolygiad yn cynnwys achosion heblaw'r rheini sy'n cynnwys nifer o droseddwyr sy'n codi o ymchwiliadau mawr, gan fod y materion yr ydym wedi'u hystyried yn gyffredin i'r holl achosion am drais rhywiol.

14. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adolygu nifer o achosion a oedd yn cynnwys nifer o ddioddefwyr a/neu ddiffynyddion (fel Ymgyrch Retriever (Swydd Derby), Ymgyrch Central (De Swydd Efrog), Ymgyrch Chalice (West Mercia), Ymgyrch Span (Manceinion Fwyaf), ac Ymgyrch Bullfinch (Dyffryn Tafwys)) gan ddefnyddio'r ffeiliau achos a oedd yn cael eu cadw gan erlynwyr lle'r oedd amseriadau a manylion proses y treial wedi'u cofnodi.[7] Mae'n amlwg, ar sail y wybodaeth hon, y byddai unrhyw ofid a thrawma a brofai dioddefwyr mewn treialon am droseddau trais rhywiol, oherwydd union natur y cyhuddiadau dan sylw, yn cael eu dwysáu mewn treialon lle y mae nifer o ddiffynyddion, pan geir croesholi sy'n para am gyfnod hir (dros nifer o oriau ac weithiau am ddiwrnodau) ac sy'n ailadroddus (lle y mae nifer o gwnseliaid yn holi dioddefwyr am yr un materion).

15. Un ffactor y dywedir ei fod yn cyfrannu at drawma dioddefwyr yw'r dull o gynnal y croesholi. Mewn treialon am droseddau trais rhywiol bydd yn ofynnol bod dioddefwyr yn adrodd am eu profiad ac yn cael eu herio ynghylch gwybodaeth a phrofiadau personol a sensitif. Ar hyn o bryd, mae adran 41 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn cyfyngu'r gallu i holi dioddefwr am ei ymddygiad rhywiol y tu allan i amgylchiadau'r digwyddiad penodol sydd dan sylw. Cafwyd enghreifftiau o achosion, sydd wedi cael sylw yn y wasg a'r cyfryngau, lle y dywedwyd bod y croesholi'n ymosodol a bod dioddefwyr, er enghraifft, wedi cael eu galw'n gelwyddwyr dro ar ôl tro. Fodd bynnag, er bod achosion o'r fath yn anghyffredin, maent yn denu llawer o sylw a sylwebaeth. Nid oes tystiolaeth bod croesholi amhriodol o ymosodol yn broblem gyffredin mewn treialon am drais rhywiol, boed y rheini'n cynnwys nifer o ddiffynyddion neu beidio. Y dystiolaeth anecdotaidd a gawsom gan ymarferwyr a sylwebwyr oedd bod rhai enghreifftiau o ymarfer gwael ond bod arferion yn newid yn gyffredinol gan fod profiad a'r gwersi a ddysgwyd yn dangos bod croesholi'n fwyaf effeithiol pan na fydd yn ymosodol.

---

6 Tabl 3.6, Key reasons for ineffective Crown Court trials in England & Wales, "Court Statistics Quarterly", y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Q4 2013.

7 Nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi ac rydym yn ddiolchgar i gymheiriaid ym maes polisi yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron am rannu'r dadansoddiad â thîm yr adolygiad.

16. Daeth themâu cyffredin i'r amlwg yn ystod yr adolygiad o groesholi ac, o ganlyniad i hyn, pennwyd meysydd lle y mae lle i ddiwygio. **Argymhellir** bod mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r canlynol:

    (i) cryfhau a gwella'r ffordd o reoli achosion a chynnal treialon;

    (ii) arbenigo gan lysoedd a/neu'r rheini sy'n gysylltiedig ag achosion am drais rhywiol;

    (iii) mesurau arbennig a threfniadau eraill ar gyfer dioddefwyr yn y llys.

17. Ni fydd y profiad o roi tystiolaeth ac o groesholi mewn treial byth yn un dymunol, ond byddai'r disgwyliad o orfod ail-fyw'r profiad yn dwysáu gofid y dioddefwr, yn enwedig mewn rhai mathau o achosion. Yn un o'r cyfarfodydd bord gron a gynhaliwyd ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar y pryd a'r Arweinydd Plismona Cenedlaethol ar drais rhywiol, trafodwyd mater rheithwyr wrth gefn. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo ers hynny i ystyried y ddadl o blaid penodi rheithwyr wrth gefn yn rheolaidd mewn achosion am drais rhywiol, er mwyn gofalu rhag amgylchiadau lle'r oedd yn rhaid rhoi tystiolaeth am yr ail dro ar ôl atal treial oherwydd diffyg rheithwyr.

18. Rydym wedi ystyried pa mor aml y mae treialon yn Llys y Goron am drais yn erbyn menywod a merched ac am gam-drin plant yn rhywiol yn methu am fod rheithwyr yn tynnu'n ôl, yn enwedig lle y mae hyn yn digwydd wedi i'r dioddefwr roi tystiolaeth. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod achosion o'r fath wedi methu yn ystod croesholi nac wedyn, fel bod angen i dyst roi ei dystiolaeth eto. Ym marn ymarferwyr cyfreithiol a barnwyr y buom yn siarad â nhw, os oes rhagolwg y bydd yn rhaid dechrau treial eto, bydd hynny'n amlwg fel arfer cyn diwedd cyflwyniad agoriadol yr erlyniad. Nododd un barnwr y byddai'n gwneud popeth yn ei allu ar ôl y pwynt hwn i barhau â'r treial.

19. Cafwyd tystiolaeth bod arferion yn cael eu datblygu gan lysoedd i ofalu rhag y posibilrwydd y bydd rheithwyr yn tynnu'n ôl mewn rhai achosion, er enghraifft, rhai sydd wedi'u hamserlennu dros gyfnod hir. Fel arfer mae'r systemau hyn yn cynnwys penodi rheithwyr ychwanegol ar gyfer cam agoriadol yr erlyniad, a'u gollwng ar ôl hynny a'u dychwelyd i'r garfan (er bod yr union ddull o wneud hyn wedi amrywio o'r naill lys i'r llall). **Argymhellir** y bydd yn fanteisiol:

    (iv) codeiddio'r drefn o benodi rheithwyr 'wrth gefn' ar gyfer y cam agoriadol mewn treialon am drais rhywiol mewn rhai amgylchiadau neu ym mhob amgylchiad.

## Meysydd posibl i'w diwygio

### (i) Cryfhau a gwella'r ffordd o reoli achosion a chynnal treialon

20. Mae croesholi'n rhan hanfodol o dreialon troseddol, ond nid yw'n rhywbeth sy'n digwydd ar y diwrnod yn unig. Er mwyn ei wneud yn iawn ac yn deg, mae angen paratoi'r achos a'r partïon ynddo'n briodol. Gellir gwneud hyn drwy reoli achosion yn effeithiol, gan y partïon a'r llys, gan ddilyn rheolau trefniadaeth droseddol,[8] cyfarwyddiadau ymarfer a chanllawiau eraill, gan gymryd rhan weithredol i ddatrys anawsterau a chynllunio ar gyfer treialon er mwyn sicrhau y gallant fynd ymlaen yn amserol, a bod popeth yn ei le i sicrhau bod y ddwy ochr yn gallu cyflwyno eu hachos hyd eithaf eu gallu.

---

[8] Rhan 3 Rheolau Trefniadaeth Droseddol.

21. Cyflawnir y swyddogaeth rheoli achosion mewn gwrandawiadau llys fel gwrandawiadau rhagarweiniol neu wrandawiadau ple a rheoli achos, a fydd yn digwydd ar wahanol gamau yn y broses er mwyn paratoi achosion ar gyfer treial. Gall effeithiolrwydd y gwrandawiadau hyn ddibynnu ar faterion fel amseru, o ran y graddau y mae'r partïon a'r achos wedi'u paratoi, maint yr amser a'r sylw a roddwyd iddynt ac, i ryw raddau, ar y tebygolrwydd mai'r barnwr a'r partïon mewn gwrandawiadau o'r fath fydd y rheini a fydd yn cymryd rhan yn y treial ei hun maes o law.

22. Rhai agweddau ar reoli achosion yn weithredol ac effeithiol yw pennu'r materion gwirioneddol yn yr achos yn gynnar; adnabod anghenion y tystion yn gynnar; cael sicrwydd ynghylch beth sydd i'w wneud, gan bwy, a pha bryd, yn enwedig drwy osod amserlen yn gynnar ar gyfer hynt yr achos; monitro hynt yr achos a chydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau; sicrhau bod tystiolaeth, pa un a yw'n cael ei herio neu beidio, yn cael ei chyflwyno yn y ffordd fyrraf a chliriaf posibl; peidio ag oedi, delio â chynifer â phosibl o agweddau ar yr achos ar yr un achlysur, ac osgoi gwrandawiadau diangen; cymell y cyfranogwyr i gydweithredu i symud yr achos yn ei flaen; a gwneud defnydd o dechnoleg.

23. Mae math newydd o wrandawiad rheoli achos, Gwrandawiadau Rheolau Sylfaenol, wedi'i gyflwyno i hwyluso ystyriaeth fwy 'dwys' i faterion mewn rhai mathau o achos. Mae *Guidelines on Prosecuting Cases of Child Sexual Abuse*[9] yn egluro ei bod yn *ofynnol* cynnal gwrandawiadau rheolau sylfaenol yn awr mewn unrhyw achos lle y mae cyfryngwr wedi'i benodi[10] a'i fod yn *arfer da* eu cynnal mewn unrhyw achos lle y mae tyst ifanc.[11]

24. I bob pwrpas, mae Gwrandawiadau Rheolau Sylfaenol yn gosod y 'rheolau sylfaenol' ar gyfer cynnal y treial. Bydd barnwr y treial a'r adfocadau'n trafod sut y bydd dioddefwyr a thystion yn cael eu holi a materion eraill sy'n gysylltiedig. Gall hyn gynnwys cytundeb gan yr amddiffyniad ar bwy fydd y cwnsler arweiniol a fydd yn holi'r dioddefwr mewn achosion lle y mae mwy nag un diffynnydd, a'r cyfnod ar gyfer croesholi. Mae'r gwrandawiadau rheolau sylfaenol i'w cynnal cyn diwrnod y treial fel y bydd pawb, a'r dioddefwr yn enwedig, yn ymwybodol o'r hyn sydd i'w ddisgwyl, a pha mor hir y mae'r achos llys yn debygol o bara, ac er mwyn ystyried a threfnu mesurau arbennig hyd y gellir cyn y treial.

25. Mae pecyn cymorth Gwrandawiadau Rheolau Sylfaenol ar gael ar wefan Advocates Gateway www.theadvocatesgateway.org.[12] Mae pecyn cymorth diwygiedig ar gael yn awr ar y wefan o'r enw '*Ground Rules Hearings: Planning to question a vulnerable person or someone with communication needs*'. Mae'r fersiwn ddiwygiedig yn trafod mwy o fathau o dystion. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn ymateb i bryderon cyffredin ynghylch hyd y gwrandawiad drwy gyflwyno terfynau lle y mae hynny'n 'angenrheidiol ac yn briodol'.

---

9 Cyhoeddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn Hydref 2013.

10 Rhan F.1, Application for a Special Measures Direction.

11 Adran 5.1, Judicial College Fairness in Courts and Tribunals 2012.

12 Mae'r wefan hon yn cael ei lletya gan y Cyngor Hyfforddi Adfocadau a chafodd ei lansio gan y Twrnai Cyffredinol yn Ebrill 2013.

26. Mae Rheol 3.8(4) o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol[13] yn ei gwneud yn ofynnol, ymysg pethau eraill, fod y llys yn cymryd pob cam rhesymol i hwyluso'r cyfranogi gan unrhyw berson. Mae hynny'n cynnwys trafod y rheolau sylfaenol ar gyfer holi tystion, ac ar gyfer cynnal y treial, ym mhob achos lle y mae'r llys yn penderfynu bod hynny'n angenrheidiol neu'n ddymunol. Yn y Cyfarwyddiadau Ymarfer Troseddol a roddwyd gan yr Arglwydd Brif Ustus, ym mharagraff I 3D ac wedyn, mae canllawiau manwl ar drin tystion sy'n agored i niwed ym mhob achos, a chyfarwyddiadau manwl ynghylch cynnal trafodaethau ar reolau sylfaenol, a'r canllawiau a chyfarwyddiadau hynny'n atodol i'r rheol honno.

27. Mae'r ffurflen gais am gyfarwyddyd mesurau arbennig sydd wedi'i hawdurdodi gan yr Arglwydd Brif Ustus i'w defnyddio mewn cysylltiad â Rhan 29 o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn cyfeirio'n benodol at yr angen am gynnal trafodaethau ar reolau sylfaenol os rhoddwyd cyfarwyddyd ar gyfer holi tyst drwy gyfryngwr, o dan adran 29 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999.

28. Mae'r ffurflen baratoi ar gyfer treial mewn llys ynadon, sydd wedi'i hawdurdodi gan yr Arglwydd Brif Ustus i'w defnyddio mewn cysylltiad â Rhan 3 o'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol, ym mharagraff 13.8, yn cynnwys anogaeth benodol i'r llys ystyried cyfarwyddo bod trafodaeth ar reolau sylfaenol i'w chynnal mewn unrhyw achos. Mae holiadur Llys y Goron ar gyfer y gwrandawiad ple a rheoli achos, a awdurdodwyd yn yr un modd gan yr Arglwydd Brif Ustus, ym mharagraff 18 ac wedyn yn cynnwys cwestiynau manwl ynghylch trin tystion y mae'n rhaid i adfocadau a'r llysoedd eu hystyried ym mhob achos.

29. Nid oes data am nifer y gwrandawiadau rheolau sylfaenol sy'n cael eu cynnal, ar sail orfodol neu fel yr arfer gorau, nac ynghylch pa mor effeithiol y maent wrth sicrhau bod materion ac anghenion dioddefwyr sy'n blant yn cael eu hystyried wrth reoli achosion. Er hynny, roedd nifer o'r rheini a gyfrannodd i'r adolygiad (gan gynnwys academwyr a sylwebwyr, ymarferwyr, a chynrychiolwyr y trydydd sector) wedi nodi bod gwrandawiadau rheolau sylfaenol, o'u defnyddio'n effeithiol, yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran delio â materion sy'n ymwneud â chroesholi cyn y treial mewn modd a fyddai o gymorth i leddfu gofid dioddefwyr a thystion.

**Argymhellir bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal â'r farnwriaeth ac ymarferwyr erlyn ac amddiffyn ynghylch a ellir ehangu cwmpas a defnydd o Wrandawiadau Rheolau Sylfaenol i gynnwys mwy/y cyfan o'r achosion trais rhywiol. Dylid ystyried sut i hyrwyddo hyn fel dull ymarfer gorau drwy roi canllawiau, a chyfeirio at Wrandawiadau Rheolau Sylfaenol mewn deunyddiau perthnasol ar reoli achosion.**

30. Er mwyn sicrhau bod digon o sylw'n cael ei roi i reoli achosion mewn mwy/y cyfan o'r achosion trais rhywiol, gan gynnwys mwy o ddefnydd o wrandawiadau rheolau sylfaenol, awgrymir bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno mecanwaith i sicrhau bod yr holl achosion trais rhywiol yn cael eu dynodi wrth ddod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol er mwyn rhoi mwy o sylw iddynt drwy gydol y broses. Byddai hyn o gymorth hefyd i sicrhau bod hawliau o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr (Cod y Dioddefwyr)[14] a'r Siarter Tystion, a deddfwriaeth ynghylch pwy y mae mesurau arbennig ar gael ar eu cyfer, yn cael eu hystyried a'u cymhwyso'n briodol ac

[13] Rhan 3 Rheolau Trefniadaeth Droseddol.

[14] Cyhoeddwyd ar 29 Hydref 2013 a bydd mewn grym o 10 Rhagfyr 2013.

yn amserol. Byddwn hefyd am ystyried a ddylid rhagdybio y bydd angen mesurau arbennig mewn achosion trais rhywiol, drwy gymryd y bydd eu hangen yn hytrach nag y gallent fod yn angenrheidiol, a byddwn am fynnu bod mwy o ystyriaeth i anghenion dioddefwyr yn ogystal â'u dymuniadau eu hunain. Er enghraifft, mae adran 22A o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn gymwys ar hyn o bryd i oedolion sy'n achwynwyr mewn achosion am droseddau rhywiol yn Llys y Goron, ac mae'n cynnwys rhagdybiaeth y bydd y dystiolaeth flaenaf sydd wedi'i recordio ymlaen llaw yn cael ei derbyn os gofynnir am hynny. Fodd bynnag, nid yw'r rhagdybiaeth honno'n gymwys i bob un o'r mesurau arbennig.

**Argymhellir ystyried cyflwyno mecanwaith i sicrhau bod yr holl achosion trais rhywiol yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer rheolaeth weithredol a pharhaus, er mwyn helpu i sicrhau mai anghenion y dioddefwr fydd y brif ystyriaeth drwy gydol y broses.**

31. Yr angen am newid yn niwylliant yr ystafell llys yw'r sylw sydd wedi codi amlaf mewn adborth drwy gydol yr adolygiad. Gyda golwg ar groesholi yn ystod treialon, mae canllawiau a gyhoeddwyd, cyfraith achosion a Rheolau Trefniadaeth Droseddol[15] yn rhoi cyfarwyddiadau ar arddull a lefel briodol yr holi. Mae gwrandawiadau rheolau sylfaenol, yn benodol, yn ceisio ystyried materion sy'n codi cyn y treial sy'n ymwneud ag union ddull y croesholi, gan gynnwys amserlennu, penodi cwnsler arweiniol mewn achosion lle y mae nifer o ddiffynyddion, a sicrhau mesurau arbennig i ddiogelu dioddefwyr a thystion sy'n mynd drwy broses y llys. Mae'r dull o drefnu a rheoli'r treial ei hun yn fater i'r barnwr, sy'n gyfrifol am sicrhau tegwch i'r ddau barti.

32. Un o'r awgrymiadau a gafwyd yn ystod yr adolygiad a allai helpu i greu newid, ar y cyd â chamau eraill fel mwy o ddefnydd o wrandawiadau rheolau sylfaenol, yw safoni Codau Ymddygiad a gofynion proffesiynol perthnasol ar gyfer cyfreithwyr. Roedd y cyn Arglwydd Brif Ustus yn achos *Farooqi* yn 2003[16] wedi cydnabod nad yw'r gwahanol reolau ar gyfer ymddygiad proffesiynol yn gyson a bod angen eu hunioni. Yn ogystal â hyn, nid yw safonau adfocatiaeth proffesiynol yn darparu ar gyfer cyflwyno cwynion am adfocadau sy'n anwybyddu rheolau neu'n torri amodau sydd wedi'u gosod gan farnwyr mewn ymyriadau yn ystod holi.

**Argymhellir bod rheolau ymddygiad proffesiynol yn cael eu hadolygu i adnabod anghysonderau a chynnig ffyrdd i'w hunioni at ddibenion treialon mewn achosion am drais rhywiol.**

### (ii) Arbenigo gan lysoedd a/neu'r rheini sy'n gysylltiedig ag achosion am drais rhywiol

33. Yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref *Child sexual exploitation and the response to localised grooming*[17] nodwyd bod y profiad o ail-fyw digwyddiadau mewn llys yn sicr o fod yn ddirdynnol i dystion, a galwyd am ddiwygiadau i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu rhoi tystiolaeth yn glir ac effeithiol yn y llys. Cafwyd nifer o

---

[15] Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol: Canllawiau ar gyfweld â dioddefwyr a thystion a chanllawiau ar ddefnyddio mesurau arbennig, y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2011); *R v F* [2013] EWCA Crim 424, R v W and M [2010] EWCA Crim 1926; R v Wills [2011] EWCA Crim 1938 ac R v E [2011] EWCA Crim 2028. Rheolau Trefniadaeth Droseddol.

[16] [2013] EWCA Crim 1649.

[17] HC 68-1, cyhoeddwyd 10 Mehefin 2013.

argymhellion gan y Pwyllgor a oedd yn nodi'r angen am ganllawiau a hyfforddiant penodol i'r farnwriaeth ac i gyfreithwyr a bargyfreithwyr sy'n adfocadau (yn benodol ynghylch a ddylid rheoli'r croesholi ar achwynwyr mewn achosion lle'r oedd nifer o ddiffynyddion drwy ddyrannu materion rhwng cwnseliaid a thrwy osod terfynau amser, ymysg pethau eraill). Roedd hefyd yn cynnig y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried cyflwyno llysoedd arbenigol (tebyg i'r llysoedd trais domestig sydd ar waith yn awr) ar gyfer achosion am gam-drin plant yn rhywiol neu droseddau rhywiol yn gyffredinol. Gallai llysoedd arbenigol o'r fath fod ar ffurf timau llys cyfan profiadol mewn ystafelloedd llys dynodedig sydd â'r dechnoleg angenrheidiol a chyfleusterau priodol ar gyfer mynediad ac aros. Yn ymateb y Llywodraeth[18] i'r Pwyllgor Materion Cartref, rhoddwyd ymrwymiad i ystyried y cysyniad o lysoedd arbenigol wrth gynnal yr adolygiad o groesholi.

34. Cafwyd galwadau hefyd am sefydlu llysoedd arbenigol, ar gyfer tystion sy'n agored iawn i niwed ac i wrando achosion sy'n ymwneud â cham-drin neu niweidio plant, yn ystod taith Deddf Trosedd a'r Llysoedd 2013 drwy'r Senedd ac wrth drafod y Mesur Plant a Theuluoedd sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Roedd y Llywodraeth wedi gwrthwynebu'r diwygiadau a gynigiwyd am fod gwaith sylweddol yn mynd ymlaen ac am fod cynlluniau wedi'u gwneud ar gyfer gwella'r system gyfan er mwyn dioddefwyr a thystion yn y dyfodol.

35. Mae'r tasglu cenedlaethol ar Drais Rhywiol yn Erbyn Plant a Phobl sy'n Agored i Niwed yn cynnal ffrwd waith *Dioddefwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol* sydd wedi pennu bod y profiad yn yr ystafell llys yn un o'r pum maes allweddol ar gyfer sylw a gweithgarwch. Bydd yn asesu'r camau a gymerir a'r cynigion ar gyfer diwygio ac yn ystyried a ydynt yn ffurfio ymateb sydd mor gyfannol ac effeithiol â'r hyn y gellid ei gael o fodel llys arbenigol. Rhai o'r camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd yw'r gwaith yn y papur hwn ar groesholi a'r defnydd o reithwyr wrth gefn neu ychwanegol i leihau'r perygl o orfod cynnal ail dreial, a chamau gweithredu eraill o dan *Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol*.

36. Y llysoedd arbenigol y cyfeiriodd y Pwyllgor Materion Cartref atynt yw'r Llysoedd Trais Domestig Arbenigol (SDVCs). Mae'r rhain yn ddull arbenigol o ddatrys problemau mewn partneriaeth, i ddelio ag achosion am drais domestig mewn llysoedd ynadon. Mae rhaglen o dan arweiniad Grŵp Llywio Cenedlaethol wedi cydgysylltu'r gwaith o gyflwyno SDVCs yn ystod y deng mlynedd diwethaf a bydd 137 o SDVCs ar waith ar ôl gorffen achredu tri safle yn 2014. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys swyddogion heddlu sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, erlynwyr, ynadon a Barnwyr Rhanbarth, a chynghorwyr cyfreithiol, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau cymorth arbenigol fel Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol. Defnyddir trefniadau rhestru i grwpio achosion mewn sesiynau llys pwrpasol arbenigol a/neu mewn gwrandawiadau dull carlam fel bod asiantaethau'n gallu darparu adnoddau angenrheidiol, ac mae mynedfeydd a mannau aros ar wahân ar gyfer dioddefwyr a diffynyddion er mwyn lleihau'r perygl o ddigwyddiadau pellach. Mae'r llysoedd yn cynnal cysylltiadau â rhaglenni i gyflawnwyr troseddau a nifer o asiantaethau fel awdurdodau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

37. Byddai cyfyngiadau ar ddefnyddio model yr SDVCs ar gyfer mathau eraill o achosion gan eu bod wedi'u datblygu i ddelio â throseddau niferus (ledled Cymru a Lloegr) lle y

---

[18] Cyhoeddwyd 10 Medi 2013.

mae'r erlyn, y prawf a'r penderfyniad yn digwydd mewn llysoedd ynadon. Mae'r mathau o achosion trais rhywiol sydd wedi sbarduno'r adolygiad hwn ac sydd wedi cael y prif sylw ynddo yn rhai sydd mor ddifrifol a chymhleth fel eu bod yn mynd gerbron Llys y Goron; nid ydynt yn fwy niferus na'r mathau eraill o droseddau sy'n mynd gerbron Llys y Goron. Nododd y cyn Arglwydd Brif Ustus, yn yr ymateb barnwrol[19] i adroddiad y Pwyllgor Materion Cartref, y byddai'r cynnig ar gyfer llysoedd arbenigol yn gallu arwain at ganlyniadau anfwriadol, fel amseroedd aros hirach os mai dim ond mewn canolfannau arbenigol y cynhelid yr achosion fel bod llai o ystafelloedd llys, barnwyr a staff ar gael i ddelio â'r achosion.

38. Y farn fwyaf cyffredin ymysg y gwahanol gyfranwyr i'r adolygiad o groesholi oedd bod llawer o waith wedi'i gyflawni, wedi'i ddechrau neu'n cael ei ystyried ar draws Llywodraeth ac ymysg pawb sydd â rhan yn y system cyfiawnder troseddol neu sy'n gysylltiedig â hi, i wella'r ffordd o ddelio ag achosion a threialon am drais rhywiol yn erbyn plant a phobl sy'n agored i niwed. Roedd cefnogaeth i'r nod a oedd wedi'i ddisgrifio gan y Pwyllgor Materion Cartref o alluogi dioddefwyr a thystion i roi tystiolaeth glir ac effeithiol, eu tystiolaeth orau, yn ystod proses y treial. Fodd bynnag, yn hytrach na sefydlu system o lysoedd arbenigol o fewn Llys y Goron, awgrymwyd y byddai addysgu/hyfforddi a sefydlu arbenigaeth, yn enwedig ymysg y rheini sy'n gysylltiedig â threialon mewn achosion o'r fath, ynghyd â gwelliannau eraill sydd wedi'u cwblhau neu eu cynllunio, yn gymorth i gyrraedd y nod hwnnw.

**Nid ydym yn argymell bod llysoedd arbenigol yn cael eu hystyried ymhellach.**

39. Un o'r manteision posibl o sefydlu 'llysoedd arbenigol' ar gyfer achosion am gam-drin plant yn rhywiol neu ar gyfer yr holl achosion trais rhywiol, yw'r gallu i gydgysylltu popeth a darparu gwasanaeth cynhwysol sy'n rhoi lle canolog i ddioddefwyr a thystion. Er enghraifft, mewn awdurdodaethau yng ngwledydd Llychlyn, mae 'tai plant' sy'n siop un stop ar gyfer dioddefwyr sy'n blant nad yw o fewn yr ystafell llys, ond lle y gall y plentyn roi tystiolaeth. Mae'r holl wasanaethau eraill, gan gynnwys rhai meddygol a chwnsela/cyf-weld, yn cael eu cyflawni hefyd yn y cyfleuster pwrpasol hwn. Er mwyn cyflwyno system o'r fath, byddai angen Rhaglen Genedlaethol newydd i ddatblygu model, ei brofi a'i roi ar waith.

40. Dull posibl arall o weithredu yw un llai ffurfiol sy'n dynodi achosion yn gynnar iawn i ddangos bod angen i bawb roi sylw arbennig iddynt, i sicrhau eu bod yn cael eu symud ymlaen a'u rheoli'n egnïol gan arbenigwyr drwy bob cam yn y system cyfiawnder troseddol. Mae cysylltiad rhwng hyn ac adran (i) uchod a sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithiol.

41. Y gwaith a'r gwelliannau sydd wedi'u dechrau eisoes yw:

- **Amgylchedd y llys**

Mae Cod y Dioddefwyr yn pennu hawliau ychwanegol ar gyfer dioddefwyr y troseddau mwyaf difrifol (gan gynnwys troseddau rhywiol), dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth a dioddefwyr sy'n cael eu targedu'n gyson, am ei bod yn fwy tebygol y bydd arnynt angen cymorth a gwasanaethau ychwanegol drwy'r broses cyfiawnder troseddol. Mae gan ddioddefwyr hawl i gael eu hasesu i bennu unrhyw

[19] Llythyr oddi wrth yr Arglwydd Brif Ustus at y Gwir Anrhydeddus Keith Vaz AS ar 26 Gorffennaf 2013.

anghenion neu gymorth sy'n ofynnol, a gallai hyn gynnwys mesurau arbennig i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau yn y llys.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn darparu hyfforddiant i hybu ymwybyddiaeth staff o'r ystyriaethau sy'n codi mewn achosion trais rhywiol. Mae rhaglen yn mynd ymlaen i benodi Hyrwyddwyr Tystion a fydd yn arwain ar bob gwaith sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion ym mhob rhanbarth ac a fydd yn atebol i bob Cyfarwyddwr Cyflawni Rhanbarthol am gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr (gweler isod). Bydd yr hyrwyddwyr yn sicrhau hefyd fod perthynas agosach ag unedau gofal tystion a byddant yn cydgysylltu â'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn lleol er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy pwrpasol. Bydd eu rôl yn cynnwys cyfrifoldeb dros sicrhau bod cyfarpar electronig ar gael os bydd ei angen (e.e. cyfarpar ailchwarae ar gyfer recordio tystiolaeth plant a thystion eraill sy'n agored i niwed) cyn dechrau treial. Gyda golwg ar gyfleusterau llys, mae rhaglen Diwygio Digidol yn yr arfaeth i hybu TG a digideiddio mewn llysoedd y disgwylir iddi fod ar waith erbyn 2016.

- **Erlynwyr**

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi sefydlu rhwydwaith o erlynwyr arbenigol, ac adfocadau ar y panel fydd yr unig rai a ddefnyddir i erlyn mewn achosion am gam-drin plant yn rhywiol. Mae fframwaith cymhwysedd clir a gwahanol lefelau achredu i benderfynu'r mathau o achos y gellir eu dyrannu i adfocadau. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ddogfen gynhwysfawr *Guidelines on Prosecuting Cases of Child Sexual Abuse*[20] ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd. Mae adran yn y canllawiau ar y cymorth sydd i'w roi i ddioddefwyr a thystion yn y llys: mae'n cynnwys arweiniad ar ofynion sy'n berthnasol i rôl yr erlynydd wrth reoli'r achos a chynnal y treial, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chroesholi.

- **Y farnwriaeth**

Ar hyn o bryd, mae'r holl farnwyr sy'n rhoi diffynyddion ar brawf ar gyhuddiadau o droseddau rhywiol difrifol yn mynd drwy broses awdurdodi i sicrhau bod ganddynt brofiad digonol ac arbenigedd angenrheidiol ar gyfer delio â'r achosion hyn. Os caiff ei ddewis, bydd y barnwr yn dilyn hyfforddiant cynhwysfawr cyn caniatáu iddo eistedd mewn achosion o'r math hwn, a bydd hyfforddiant diweddaru wedyn i ategu'r addysg arbenigol a gaiff pob barnwr sy'n rhoi prawf ar yr achosion hyn.

Yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cartref, roedd y cyn Arglwydd Brif Ustus wedi cyhoeddi camau ar gyfer dewis a chymeradwyo barnwyr ym mhob achos yn ei dro ar gyfer rhai achosion am drais a cham-drin rhywiol, ac ar gyfer darparu hyfforddiant pwrpasol i'r barnwyr hynny. Bydd y camau newydd yn darparu ar gyfer dewis a chymeradwyo barnwyr ym mhob achos yn ei dro ar gyfer rhai achosion am drais a cham-drin rhywiol difrifol sy'n cynnwys tystion sy'n agored iawn i niwed, ac ar gyfer darparu hyfforddiant pwrpasol i'r barnwyr hynny. Deellir bod y gwaith ar ddatblygu'r hyfforddiant pwrpasol yn mynd rhagddo'n dda a bod bwriad i'w gyflwyno ar ddechrau 2014.

Mae'r farnwriaeth yn pryderu hefyd ynghylch amseroldeb achosion trais rhywiol sy'n cynnwys tystion ifanc ac agored i niwed. Mae'r Swyddfa Farnwrol wedi ymgymryd â gwaith ar ran yr Arglwydd Brif Ustus i ystyried pam y mae'n cymryd mor hir i achosion gyrraedd treial a chael eu cwblhau. Yn ogystal â hyn, mae menter yn cael ei hystyried

[20] Hydref 2013.

sydd â'r nod o ddod ag achosion sy'n cynnwys dioddefwyr ifanc iawn i dreial o fewn cyfnod byrrach.

- **Yr amddiffyniad**

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae dewis ehangach o lawer o hyfforddiant a deunyddiau ar gael i'r holl adfocadau ar ddelio ag achosion sy'n cynnwys tystion sy'n agored i niwed, gan gynnwys croesholi. Mae nifer o'r academwyr a sylwebwyr y buom yn siarad â nhw yn cyfrannu'n uniongyrchol i gyrsiau hyfforddi, fel wythnos hyfforddiant 'Keble' ar adfocatiaeth ar Gylchdaith De-ddwyrain Lloegr sydd bellach yn neilltuo dau ddiwrnod ar gyfer holi tystion sy'n agored i niwed. Maent hefyd yn cyfrannu i ddeunyddiau a chanllawiau sy'n cael eu datblygu i adfocadau a barnwyr ar ddeall a delio â thystion ifanc ac agored i niwed sydd ar gael drwy wefan Advocates' Gateway.[21] Mae Cyngor y Bar a Chymdeithas y Cyfreithwyr wedi cyhoeddi menter newydd i hyfforddi cyfreithwyr yr amddiffyniad ar achosion sy'n cynnwys tystion sy'n agored i niwed.

Fodd bynnag, yn wahanol i'r hyn sydd ar gael i erlynwyr a barnwyr, nid oes system ar waith ar gyfer achredu adfocadau dros yr amddiffyniad. Mae Bargyfreithwyr a Chyfreithwyr Eiriolwyr yn gallu gweithredu dros yr erlyniad neu'r amddiffyniad, felly gellir eu hachredu os byddant yn gwneud cais am ymuno â phanel arbenigwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron. Os na fyddant yn gwneud hynny, nid oes modd ar hyn o bryd i fynnu eu bod yn dilyn hyfforddiant neu'n dangos eu gallu i ymgymryd ag achosion sy'n cynnwys tystion sy'n agored i niwed. Y cyngor a gafwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar oedd mai'r ffordd orau o weithredu fyddai annog adfocadau i ddilyn hyfforddiant o'u gwirfodd, gan gydnabod bod angen iddynt wybod cymaint a bod mor gymwys â'r barnwyr ac erlynwyr sydd wedi'u hachredu – wedyn gallent ddenu gwaith i'w cwmni ar sail y ffaith eu bod wedi cael hyfforddiant. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn ffordd dryloyw o weithredu ac ni fyddai proses amlwg i sicrhau bod adfocadau unigol yn ennill ac yn cynnal arbenigedd.

**Argymhellir bod cyrff sy'n gyfrifol am ymddygiad proffesiynol ac ymarferwyr yn cael eu hannog a'u helpu i ddatblygu system agored a thryloyw ar gyfer achredu adfocadau'r amddiffyniad.**

### (iii) Mesurau arbennig a threfniadau eraill ar gyfer dioddefwyr yn y llys

42. Mae Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn darparu y bydd mesurau arbennig ar gael yn y llys i ddioddefwyr a thystion ifanc ac agored i niwed. O'u defnyddio'n effeithiol, bydd mesurau arbennig yn rhoi cymorth ychwanegol i ddioddefwyr/tystion sy'n agored i niwed ac yn cael eu bygwth er mwyn eu helpu i roi eu tystiolaeth orau yn y llys. Mae crynodeb isod o'r mesurau arbennig sydd ar gael ar hyn o bryd. Rhaid nodi nad yw'r mesurau arbennig yn cael eu cynnig ar gyfer achosion trais rhywiol yn unig.

43. Ymhlith y mesurau arbennig mewn deddfwriaeth y mae:

- sgriniau – fel nad yw'r tyst yn gorfod gweld y diffynnydd na chael ei weld;
- cyswllt byw – sy'n caniatáu i'r tyst roi tystiolaeth o'r tu allan i'r ystafell llys, neu o'r tu allan i lys y treial, i sicrhau bod y tyst yn gallu rhoi ei dystiolaeth orau;

---

[21] www.theadvocatesgateway.org

- cynorthwyydd yn ystafell y cyswllt byw;
- gwneud recordiad fideo o'r dystiolaeth flaenaf – caniatáu i gyfweliad â'r tyst , sydd wedi'i recordio ar beiriant fideo cyn y treial, gael ei ddangos i roi tystiolaeth flaenaf y tyst;
- rhoi tystiolaeth yn breifat – clirio'r rhan fwyaf o'r bobl o'r llys mewn achosion am droseddau rhywiol a bygwth tystion (rhaid caniatáu i gynrychiolwyr cyfreithiol a rhai pobl eraill gael aros);
- barnwyr ac adfocadau'n tynnu eu perwigau a'u gynau;
- cyfryngwr – caniatáu i gyfryngwr a gymeradwywyd (arbenigwr ar gyfathrebu) helpu tyst sy'n agored i niwed i gyfathrebu â'r heddlu, cynrychiolwyr cyfreithiol a'r llys:
- cymhorthion cyfathrebu – caniatáu i dyst ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu fel llyfr symbolau neu fyrddau abiéc;
- recordio croesholi ar beiriant fideo cyn y treial. Daeth y ddeddfwriaeth i rym yn rhannol mewn tri safle Llys y Goron ar 30 Rhagfyr 2013.[22]

44. Yn ogystal â'r mesurau arbennig sydd mewn deddfwriaeth ar gyfer tystion sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth, gellir gwneud trefniadau eraill i ddarparu cymorth ychwanegol cyn ac yn ystod y treial gan gynnwys ymweliadau i gynefino â'r llys cyn y treial a threfniadau priodol ar gyfer seibiant gan gydnabod bod plant yn fwy tueddol i flino ac nad ydynt yn gallu canolbwyntio am gyfnodau mor hir ag oedolion.

45. Yn gyffredinol, mae plant a dioddefwyr sy'n agored i niwed yn cael eu hystyried yn gymwys yn awtomatig o dan adran 16 o Ddeddf 1999. Mae'r holl achwynwyr am droseddau rhywiol yn cael eu hystyried yn rhai sy'n cael eu bygwth ac maent hefyd yn gymwys yn awtomatig o dan adran 17(4). Fel y nodwyd yn gynharach, mae adran 22A yn cynnwys rhagdybiaeth sy'n gymwys i achosion am droseddau rhywiol a wrandewir yn Llys y Goron y bydd tystiolaeth a recordiwyd ymlaen llaw yn cael ei derbyn os gofynnwyd am hynny. Er hynny, mae'n bwysig bod tystion sy'n blant neu'n bobl sy'n agored i niwed yn cael eu hadnabod yn gynnar fel y gall ymchwilwyr wirio a ydynt yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer cyfarwyddyd mesurau arbennig o dan Ddeddf 1999, gan ystyried yr amgylchiadau, y dymuniadau y mae'r tyst wedi'u mynegi a sylwadau unrhyw un sy'n gysylltiedig â gofalu am y tyst.

46. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau[23] yn ei gwneud yn ofynnol bod yr heddlu'n cymryd pob cam rhesymol i adnabod dioddefwyr sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth. O dan y Cod, mae hawl gan y tystion hyn i gael lefel gwasanaeth uwch. Rhaid gwneud cais i'r llys am fesurau arbennig, a dyletswydd y llys yw sicrhau bod y mesur arbennig ar waith ar ddiwrnod y gwrandawiad i alluogi'r dioddefwr/tyst i roi tystiolaeth.

---

[22] Mae adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn caniatáu recordio croesholi cyn y treial ar gyfer tystion sy'n agored i niwed ac yn cael eu bygwth. Treialu'r ddeddfwriaeth hon yw cam gweithredu 40 yn STraP ac ar 11 Mehefin 2013 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder y bwriad i dreialu'r ddarpariaeth hon mewn tri safle Llys y Goron – Lerpwl, Leeds a Kingston-Upon-Thames. Bydd y cynlluniau peilot yn rhedeg am chwe mis a bydd cyfnod asesu ar eu hôl.

[23] Cyhoeddwyd ar 29 Hydref 2013 a bydd yn weithredol o 10 Rhagfyr 2013.

47. Nid oes tystiolaeth ar gael ynghylch derbyn a defnyddio mesurau arbennig mewn achosion trais rhywiol nac yn gyffredinol yn yr achosion hynny lle y gall dioddefwyr a thystion fod â hawl i'w cael. Nododd y Pwyllgor Materion Cartref[24] fod methiant i weithredu mesurau arbennig yn gywir yn achosi pryder, gan ei fod wedi cael tystiolaeth am anawsterau. Cyfeiriodd yr NSPCC at broblemau sy'n ymwneud ag oedi, holi gwael, asesu annigonol ac ystyriaeth annigonol i fesurau arbennig priodol. Tynnodd Cymorth i Ddioddefwyr sylw at fethiannau yng nghyswllt mesurau arbennig, er enghraifft, drwy anghofio gosod sgriniau a gwallau technegol. Gyda golwg ar yr adolygiad o groesholi, rhoddwyd gwybod gan farnwyr Llys y Goron (drwy Is-bwyllgor Cyfiawnder Troseddol Cyngor Barnwyr Cylchdaith EM) fod problemau sylweddol wedi codi ynghylch TG a chyfarpar gan awgrymu y byddai buddsoddi i wella cyfleusterau TG a chyswllt byw yn gallu helpu i leddfu gofid dioddefwyr mewn achosion trais rhywiol, gan gynnwys gofid wedi'i achosi gan oedi oherwydd problemau o'r fath yn ystod treialon.

48. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio ar hyn o bryd i hybu ymwybyddiaeth o fesurau arbennig a gwasanaethau cymorth, ac i hyrwyddo'r defnydd ohonynt.[25] Yn ogystal â hyn, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwella ei ganllawiau ar fesurau arbennig, yn enwedig mewn achosion am gam-drin plant, ac mae pecynnau cymorth a deunyddiau ar gael ar wefan Advocates' Gateway[26] am y rhai sydd ar gael ac am y defnydd ohonynt. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn cynnal rhaglen sy'n cyflwyno Hyrwyddwyr Tystion rhanbarthol a fydd yn gyfrifol am gydgysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron ac unedau gofal tystion yr heddlu ynghylch mesurau arbennig, ac mae'r Trysorlys wedi neilltuo £160 miliwn ar gyfer rhaglen i foderneiddio a digideiddio llysoedd. Rhagwelir y bydd y mentrau hyn, gyda'i gilydd, yn lleddfu amheuon y Pwyllgor Materion Cartref dros amser.

49. O'r holl fesurau arbennig sydd ar gael, y testun pryder mwyaf yng nghyd-destun achosion trais rhywiol a'r adolygiad o groesholi oedd y tanddefnydd honedig o gyfryngwyr cofrestredig gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, a'r llysoedd.

50. Mae deddfwriaeth[27] yn darparu ar gyfer defnyddio cyfryngwyr mewn treialon troseddol i helpu tystion sy'n agored i niwed sydd ag anawsterau cyfathrebu i roi eu tystiolaeth orau yn y llys. Maent yn swyddogion llys a'u swyddogaeth yw bod yn *gyfrwng* er mwyn sicrhau bod cyfathrebu rhwng y llys a'r tyst mor gyflawn, rhesymegol a chywir â phosibl. Yn y bôn, mae'r cyfryngwr yn cyflawni swyddogaeth gymharol oddefol y 'dehonglwr', os bydd angen, drwy wneud iaith gymhleth yn fwy dealladwy, yn ogystal ag egluro ateb y tyst i'r llys, fel y gall y ddau ddeall ei gilydd.

51. Mae cymorth ar gael gan gyfryngwr i bob tyst sy'n cael ei ystyried yn agored i niwed. Mae tyst sy'n agored i niwed[28] yn rhywun sydd o dan 18 mlwydd oed, neu'n rhywun y byddai ei dystiolaeth o ansawdd is am fod ganddo anhwylder meddwl (o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983), anabledd dysgu (nam sylweddol ar ddeallusrwydd a gweithredu cymdeithasol) neu anabledd corfforol neu anhwylder corfforol.

---

[24] Yn ei adroddiad HC 68-1 ar gamfanteisio rhywiol ar blant a'r ymateb i feithrin perthnasoedd amhriodol yn lleol a gyhoeddwyd ar 10 Mehefin 2013, ym mharagraffau 87–88.

[25] Cam Gweithredu 39 yn Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol.

[26] www.theadvocatesgateway.org

[27] Adran 29 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999.

[28] Ibid, adran 16.

52. Er mwyn gwneud cyfarwyddyd i ganiatáu defnyddio cyfryngwr, rhaid i'r llys benderfynu y bydd cymorth i gyfathrebu a/neu ddeall yn gwella ansawdd tystiolaeth y tyst. Gellir rhoi cymeradwyaeth yn ôl-weithredol os oedd cyfryngwr wedi'i ddefnyddio yn ystod ymchwiliad. Mewn modd tebyg i fathau eraill o fesurau arbennig, gall yr erlyniad neu'r amddiffyniad wneud cais am hyn, neu gall y llys gymryd y cam hwn.

53. Mae'r Cod Dioddefwyr diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol bod yr heddlu'n penodi gweithiwr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant addas i gyf-weld â dioddefwyr mewn ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion a'u barn ac yn ystyried ffactorau fel yr angen am gael cyfryngwr cofrestredig i'w helpu i gyfleu eu tystiolaeth yn effeithiol.

54. Bydd cyfryngwyr a gyflogir drwy'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn asesu galluoedd ac anghenion y tyst o ran cyfathrebu'n gynnar yn yr achos, ac yn llunio adroddiad ysgrifenedig i'r barnwr, yr erlyniad a'r amddiffyniad. Dylid tynnu sylw yn yr adroddiad hwn at faterion fel analluu i ganolbwyntio am gyfnodau hir a mathau penodol o holi i'w hosgoi.

55. Rydym yn gwybod bod cyfryngwyr wedi'u defnyddio mewn 6000 o achosion er 2004 pan roddwyd y ddeddfwriaeth ar eu cyfer mewn grym. Nid ydym yn gwybod a yw hyn yn gyfran fach neu fawr o'r achosion trais rhywiol, yn y cyfnod hwnnw o naw mlynedd, a oedd yn cynnwys dioddefwyr sy'n blant neu'n bobl agored i niwed a allai fod yn gymwys i gael y mesur arbennig hwn. Roedd academwyr ac eraill sydd wedi gwylio ac ymchwilio i dreialon trais rhywiol wedi awgrymu i ni fod tanddefnydd o gyfryngwyr mewn achosion o'r fath. Er hynny, nid yw'n glir iddynt pam y gallai unrhyw danddefnydd o'r fath godi. Gallai fod yn ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth o'r ffaith bod cyfryngwyr ar gael ac o'r rhan y gallant ei chwarae; gallai fod yn ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth o anghenion dioddefwyr/tystion ar ran y partïon; neu gallai ymwneud ag ystyriaeth o ran cost sy'n pennu a wneir cais am gyfryngwr o gwbl ac i ba raddau y bydd yn cael ei ddefnyddio yn yr achos wedyn.

56. Y farn ymysg y bobl y buom yn siarad â nhw i ddibenion yr adolygiad a oedd wedi gweithio mewn achosion lle'r oedd cyfryngwr wedi'i ddefnyddio, neu wedi gwylio neu ymchwilio i achosion o'r fath, oedd bod cyfryngwyr cofrestredig a ddarperir drwy'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion yn darparu gwasanaeth pwysig o ansawdd uchel, a bod llawer o dystion a dioddefwyr agored i niwed na fyddent yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau hebddo. Roedd cefnogaeth fawr i'r amcan o ddeall yn well a yw cyfryngwyr yn cael eu defnyddio'n llawn mewn achosion trais rhywiol, a'r rhesymau dros unrhyw ddiffyg defnydd, ac o hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r hyn y gallant ei wneud dros ddioddefwyr a thystion mewn achosion trais rhywiol.

57. Yn ogystal â gwneud mwy o ddefnydd o gyfryngwyr mewn achosion trais rhywiol, roedd nifer o'r academwyr a sylwebwyr y buom yn siarad â nhw wedi galw am waith i ystyried ffyrdd arloesol o ddefnyddio sgiliau cyfryngwyr, o dan y ddeddfwriaeth bresennol os oes modd. Tynnwyd sylw at y posibilrwydd o ddefnyddio cyfryngwyr mewn rôl ddirprwyol neu fel cyd-sgwrswyr, fel y gwneir mewn systemau anwrthwynebus mewn gwledydd fel Norwy. Roedd yr Adroddiad Cynghorol ar Dystiolaeth Fideo 1989 (Adroddiad Pigot) yn argymell bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer defnyddio cyfryngwyr fel cyd-sgwrswyr ac, ym marn rhai, byddai geiriad adran 29 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn rhoi'r gallu i wneud hynny.

58. Mae Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) yn rhan o'r patrwm cyffredinol o gymorth i ddioddefwyr trais rhywiol. Maent yn arbenigwyr hyfforddedig, llawer

ohonynt yn gweithio i elusennau, sy'n gallu darparu cyngor a gofal bugeiliol ychwanegol i ddioddefwyr a thystion. Roedd nifer o'r bobl y buom yn siarad â nhw wedi nodi bod diffyg eglurder ynghylch rôl ISVAs, gweithwyr cymdeithasol, a'r Gwasanaeth Tystion yn y llys ac eraill sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth cyn ac ar ôl bod yn y blwch tystio. Er bod dealltwriaeth fras o rôl y cyfryngwr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, nid oes ffordd gyson o drin cynorthwywyr, ac nid oes canllawiau cenedlaethol ar rôl yr ISVAs.

**Argymhellir edrych ar y manteision posibl o ehangu rôl cyfryngwyr, gan gynnwys ystyried a yw hynny'n ymarferol o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol neu drwy ei ddiwygio, ac asesu goblygiadau o ran cost. Drwy'r gwaith hwn, dylid ystyried hefyd briod rolau cyfryngwyr, Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) a chynorthwywyr eraill fel y bydd rôl a phwrpas pob un ohonynt yn eglur.**

59. Roedd nifer o'r rhai y buom yn siarad â nhw, gan gynnwys ymarferwyr ac academwyr, yn ymddiddori yn y cynllun peilot sydd i'w gynnal ar recordio croesholi cyn y treial. O'r mesurau arbennig a ddatblygwyd mewn deddfwriaeth ar ôl Adroddiad Pigot, hwn yw'r olaf i gael ei brofi a'i weithredu ac, yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cartref ar gamfanteisio rhywiol ar blant, galwyd am weithredu'r cynllun yn syth, erbyn Ionawr 2014. Mynegwyd pryderon na fydd y cynllun peilot yn rhoi'r gallu i roi prawf ar y ddarpariaeth mewn ffordd hyblyg a chreadigol, gan mai'r bwriad ar hyn o bryd yw seilio'r cynllun yn amgylchedd yr ystafell llys yn hytrach na defnyddio cyfleusterau y tu allan i adeilad y llys, ac na fydd yn bosibl cyfuno'r recordio ar groesholi cyn y treial â phrofion ar ddatblygu mesurau arbennig eraill fel ffordd amgen o ddefnyddio cyfryngwyr (sydd wedi'i thrafod ym mharagraff 57 uchod).

60. Roedd academwyr a gyfrannodd i'r adolygiad, rhai ohonynt yn ymwneud â datblygu pecynnau cymorth, canllawiau a deunyddiau allweddol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch delio â dioddefwyr a thystion ifanc ac agored i niwed mewn achosion trais rhywiol, wedi pwysleisio bod angen i dystion allu rhoi tystiolaeth/cael eu croesholi y tu allan i'r ystafell llys, gan fod hyn yn ffactor allweddol o ran lleddfu straen a gofid. Mae hon yn thema a ddilynwyd gan y cyn Arglwydd Brif Ustus, yr Arglwydd Judge,[29] gan ddadlau nad oes angen i ddioddefwyr sy'n blant fod yn bresennol eu hunain yn y llys ac, os cyflwynir yr holl gyfleusterau technolegol sydd eu hangen mewn achosion o'r fath, y byddai dadl gryf o blaid eu defnyddio ar gyfer dioddefwyr eraill, yn enwedig dioddefwyr troseddau rhywiol.

**Wrth ddisgwyl canlyniad y rhaglen beilot ar recordio croesholi cyn treial, argymhellir bod mwy o waith yn cael ei wneud i hybu ymwybyddiaeth a mwy o ddefnydd o gysylltiadau byw a mesurau arbennig eraill i alluogi dioddefwyr a thystion mewn achosion am drais rhywiol i roi tystiolaeth a chael eu croesholi y tu allan i'r ystafell llys.**

61. Yn y Ddarlith Flynyddol ar Ddiwygio'r Gyfraith a draddodwyd ganddo, awgrymodd yr Arglwydd Judge, os na ellir addasu'r system i gynnwys arferion o'r fath, y gallai'r angen godi i adolygu traddodiad hir y system gyfiawnder wrthwynebus yn y DU. Roedd eraill y buom yn siarad â nhw, yn enwedig yr academwyr, yn awgrymu y

---

[29] Wrth draddodi darlith flynyddol Cyngor y Bar ar ddiwygio'r gyfraith, The Evidence of Child Victim: the Next Stage, ar 21 Tachwedd 2013.

byddai mantais mewn comisiynu adroddiad newydd tebyg i un Pigot i edrych ar y canlynol:

- y posibilrwydd o ddiwygio'r system wrthwynebus,
- a ellid cymryd camau i ddelio â'r diffyg cydraddoldeb ymddangosiadol o ran cynrychiolaeth y dioddefwyr (gan nad yw eu buddiannau'n cael eu cynrychioli gan yr erlyniad ac nid ydynt yn barti yn yr achos),[30]
- yr ymarfer a'r foeseg sydd ynglŷn â chroesholi tystion sy'n agored i niwed ac a ddylid pennu safonau,
- amrediad a chwmpas y mesurau arbennig i ddiogelu tystion ifanc ac agored i niwed.

**Argymhellir ystyried y manteision posibl o gynnal adolygiad pellach ar ôl cael gwybod y canlyniadau o'r rhaglen beilot ar recordio croesholi cyn treial a rhaglenni presennol ac arfaethedig eraill sy'n effeithio ar achosion am drais rhywiol a/neu ddioddefwyr sy'n blant.**

### (iv) Codeiddio'r trefniadau i benodi rheithwyr 'wrth gefn' ar gyfer y cam agoriadol mewn treialon am drais rhywiol mewn rhai amgylchiadau

62. Casglwyd tystiolaeth er mwyn ystyried y graddau y byddai penodi rheithwyr ychwanegol yn ffordd o osgoi sefyllfa lle'r oedd dioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched/camfanteisio rhywiol ar blant yn gorfod rhoi tystiolaeth mwy nag unwaith. Cafwyd ymatebion gan reolwyr rheithgorau, is-bwyllgor Cyfiawnder Troseddol Cyngor y Barnwyr Cylchdaith, Barnwyr Llywyddol a Phreswyl, Prif Erlynwyr y Goron a'r Gweithgor Amddiffyn Rhithwir i holiadur ynghylch pa mor aml y mae treialon yn cael eu hatal am fod rheithwyr yn tynnu'n ôl – yn enwedig pan fydd hyn yn digwydd wedi i'r dioddefwr roi ei dystiolaeth.

63. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth anecdotaidd yn yr ymatebion a oedd yn nodi mai peth cyffredin oedd atal treialon mewn achosion o'r math dan sylw ar ôl croesholi am fod rheithwyr wedi tynnu'n ôl. Er hynny, roedd ymatebion i'r holiadur yn dangos bod barnwyr yn effro i'r perygl na fydd rhai treialon yn gallu mynd ymlaen fel y bwriadwyd, yn enwedig y rheini sydd wedi'u rhestru i bara am gyfnod hir.

64. Arfer arall a nodwyd oedd panelu rheithwyr gan lysoedd ar ddiwedd y dydd, gan eu hysbysu am hyd tebygol y treial a rhoi amser iddynt ystyried dros nos a fyddant yn gallu eistedd drwy gydol y treial. Gall hyn fod yn ffordd o osgoi'r broblem a geir pan fydd rheithwyr yn tynnu'n ôl wedi i'r achos ddechrau, a gall fod o gymorth hefyd lle y mae perygl y bydd rheithwyr yn tynnu'n ôl oherwydd natur y troseddau yn y treial.

65. Ni chafwyd unrhyw gyfiawnhad yn y dystiolaeth a gasglwyd dros gymryd camau fel mater o drefn i osgoi'r posibilrwydd o amharu ar dreialon. Er hynny, gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r arferion da sy'n datblygu lle y mae rheithwyr ychwanegol yn cael eu penodi mewn rhai achosion neu lle y mae rheithwyr ychwanegol yn cael eu cadw

---

[30] Mae Cyfarwyddeb 2012/29 yr UE yn darparu hawl i gael cymorth cyfreithiol i ddioddefwyr y mae eu cyfraith genedlaethol yn rhoi statws partïon iddynt mewn achosion troseddol (nid yw hyn yn cynnwys y tair awdurdodaeth yn y DU). Mae Cynrychiolaeth Gyfreithiol Annibynnol i ddioddefwyr yn gysyniad sydd wedi gwreiddio'n gymharol dda mewn gwahanol fformatau mewn gwledydd ar gyfandir Ewrop, gan gynnwys Ffrainc, Gwlad Belg, a'r Eidal, ac mae'n weithredol yn Iwerddon ac yng Nghanada. Dangoswyd nad yw'r modelau hyn yn cydweddu ag achosion gwrthwynebus.

ar ôl cam agoriadol yr erlyniad yn y treial er mwyn lleihau'r perygl o amharu ar dreialon, os bydd y barnwr yn ffafrio hynny.

**Argymhellir y byddai mantais mewn codeiddio'r dull o benodi rheithwyr ychwanegol ar gyfer y cam agoriadol fel y bydd canllawiau i farnwyr ynghylch y camau i'w cymryd, fel y gellir hysbysu rheithwyr ac fel y gall rheolwyr rheithgorau reoli'r garfan rheithwyr mewn ffordd gyson. Yn ogystal â hyn, dylid darparu wrth newid y rheolau fod rheithwyr, mewn achosion priodol, i gael eu panelu ar ddiwedd y dydd cyn dechrau'r treial.**

66. Dylid nodi bod y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol wedi ymgynghori ar gynigion i godeiddio'r arfer presennol o benodi rheithwyr ychwanegol ac wedi dod i rai casgliadau'n barod. Mabwysiadodd reol, a fydd yn cael ei hadolygu maes o law, sy'n caniatáu dewis rheithwyr ychwanegol lle y mae disgwyliad y bydd y treial yn para am fwy na 4 wythnos. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y gellid cadw rheithwyr ychwanegol mewn achos lle'r oedd disgwyliad y byddai'r treial yn un hir ac y byddent yn cael eu cadw tan ddiwedd cam agoriadol yr erlyniad yn unig. Bydd y rheithwyr ychwanegol yn llenwi'r lle sydd wedi'i adael ar ôl gollwng un o'r 12 rheithiwr cyntaf yn y drefn y maent wedi'u dewis o'r panel. Hefyd, cymeradwywyd rheol newydd gan y Pwyllgor sy'n golygu y bydd rheithwyr yn cael eu rhybuddio ymlaen llaw am dreial hir ac na fydd y llw'n cael ei weinyddu tan y diwrnod wedyn, er mwyn rhoi cyfle iddynt eu hesgusodi eu hunain os bydd angen.

# Atodiad A – Cyfranwyr i'r adolygiad

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Cyngor y Bar

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol

Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr

Cyngor Barnwyr EM, aelodau'r Pwyllgor Cyfiawnder Troseddol

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Y Swyddfa Farnwrol

Natcen

Gwasanaeth Tystion Cymorth i Ddioddefwyr

Joyce Plotnikoff a Richard Woolfson – Lexicon

Yr Athro John Spencer a'r Athro Michael Lamb – Prifysgol Caergrawnt

Yr Athro Penelope Cooper – Prifysgol Kingston a'r Cyngor Hyfforddi Adfocadau

Emily Henderson – Seland Newydd

## Pethau eraill a ystyriwyd

Gohebiaeth, gan gynnwys gohebiaeth oddi wrth ymarferwyr cyfraith drosedd

Rhaglen am groesholi ar BBC Radio 4 ar 11 Medi 2013

Sylw yn y wasg/cyfryngau i dreialon a rhaglenni dogfen am achosion penodol

Nbresearch, Dr Nina Burrowes "Responding to the challenge of rape myths in court. A guide for prosecutors" – Mawrth 2013

Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau – Hydref 2013

Canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar erlyn mewn achosion am gam-drin plant yn rhywiol – Hydref 2013

Y Rheolau Trefniadaeth Droseddol

2013 Protocol and Good Practice Model: Disclosure of information in cases of alleged child abuse and linked criminal and care directions hearings – Hydref 2013

Ymchwil gan Cymorth i Ddioddefwyr "Out of the Shadows: Victims' and Witnesses' experiences of attending the crown court" ac "At risk, yet dismissed" – Hydref 2013

Erthygl gan yr Athro Penelope Cooper, Prifysgol Kingston a'r Cyngor Hyfforddi Adfocadau a Ruth Marchant, Triangle: '*Nobody really did that, did they': Is cross-examination about investigating the truth*? (2014) – i'w chyhoeddi

## Camau gweithredu yn Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol

| Cam Gweithredu | |
|---|---|
| 39 | Gwella cysondeb a'r defnydd a wneir o fesurau arbennig ar gyfer tystion sy'n agored i niwed a bygythiadau. |
| 40 | Treialu Adran 28 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, sy'n caniatáu i dyst agored i niwed gael ei groesholi drwy recordio ymlaen llaw, mewn tri llys – Leeds, Lerpwl a Kingston-upon-Thames – i ddechrau ddiwedd 2013. |
| 42 | Ystyried a ellid defnyddio rheithwyr ychwanegol neu wrth gefn yn yr achosion hyn, yn lle unrhyw reithwyr a ollyngwyd yn ystod y treial, er mwyn lleihau'r risg o orfod stopio ac ailgychwyn achos. |
| 43 | Adolygu sut y gallwn leihau'r trallod a achosir i rai dioddefwyr wrth gael eu croesholi, yn enwedig lle y mae gan yr amddiffyniad nifer o fargyfreithwyr. |

© Hawlfraint y Goron 2014
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heblaw logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu anfonwch neges e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os nodwyd bod deunydd o dan hawlfraint trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.